**Tasg 1**

# Miss Camel y Byd

## Miss Camel y Byd

Atebwch y cwestiynau yma.

1. Beth yw ffurf y darn? (✓)

☐ a. hysbyseb
☐ b. stori fer
☐ c. erthygl
☐ ch. llythyr

Rhowch reswm dros eich ateb.

2. Beth yw pwrpas y darn? (✓)

☐ a. beirniadu
☐ b. perswadio
☐ c. cwyno
☐ ch. cyflwyno gwybodaeth

Rhowch reswm dros eich ateb.

3. Mae'r arddull yn:? (✓)

☐ a. ffurfiol
☐ b. sgyrsiol
☐ c. barddonol
☐ ch. tafodieithol

Rhowch reswm dros eich ateb.

Gweiddi

4. Ticiwch (✓) **Ffaith** neu **Barn**:

| | | Ffaith | Barn |
|---|---|---|---|
| a. | Mae deuddeg o gamelod wedi cael eu cosbi. | | |
| b. | Mae'r ŵyl gamelod yn hynod o ddiddorol. | | |
| c. | Mae gwobrau gwerth miliynau o bunnau'n cael eu cyflwyno. | | |
| ch. | Mae trwyn camel yn hardd iawn. | | |
| d. | Mae'r gwefusau'n harddach na'r trwyn. | | |
| dd. | Mae'r beirniaid yn edrych yn ofalus ar bennau'r camelod. | | |
| e. | Mae defnyddio Botox yn beth drwg i'w wneud. | | |
| f. | Mae pigiadau tebyg i Botox yn gallu chwyddo pen camel. | | |
| ff. | Mae twyllo yn beth ofnadwy i'w wneud. | | |
| g. | Dylai pobl sy'n twyllo gael eu cosbi'n llym. | | |

5. Gwnewch hysbyseb i geisio denu pobl o Gymru i ymweld â'r ŵyl gamelod.
Rhaid i chi ddweud:
    - pryd – pa fis bob blwyddyn
    - ble
    - beth sy'n digwydd fel arfer
    - beth yw'r gwobrau.

    Defnyddiwch iaith berswadiol, e.e.

    - ansoddeiriau da
    - cwestiynau rhethregol
    - gorchmynion